

Cofnodion Ffrindiau Ysgol Pwll Coch Minutes 05.05.22

Presennol/Present: Mike Gelder (Cadeirydd/Chair), Non Stevens (Is-gadeirydd/Vice Chair), Rachel James, Alice Rothwell, Rhiannon Bianchi, Becca Avci, Sarah Alldis, Dewi Rees, Beverley Kibble (Trysorydd/Treasurer), Lowri Edwards (Ysgrifennydd/Secretary - cofnodion), John Stark, Nicola Skyrme, Jo Beavan Matcher

- **Ymddiheuriadau/Apologies** – Nia Roberts, Beca Davies, Ross Dingle, Siwan Seaman
- **29/4/22 - Her stadiwm Dinas Caerdydd/Cardiff City Stadium challenge** – diwrnod anhygoel a llwyddiant ysgubol gyda £4,000 wedi’u codi i’r ysgol! Cynlluniau i gael ystafell les newydd yn barod erbyn mis Medi a fydd ar gael i bawb ddefnyddio. Bydd yr arian yn mynd tuag at ddodrefn a chyfarpar yn yr ystafell. Bydd angen penderfynu ar yr union ffordd o wario’r arian er mwyn cael y budd mwyaf ohono – naill ai bod yr arian yn cael ei drosglwyddo i’r ysgol neu bod yr ysgol yn gofyn i Ffrindiau Pwll Coch brynu pethau ar ran yr ysgol. Pan fydd y gwaith wedi’i gwblhau, penderfynwyd y byddai’n beth braf anfon e-bost at bawb sydd wedi cyfrannu er mwyn dangos at beth wnaethon nhw gyfrannu. Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud i’r arian fynd ymhellach drwy holi am gronfeydd cymunedol etc sydd ar gael mewn siopau fel Ikea. Neu os oes rhieni/cysylltiadau’n gweithio mewn siopau dodrefn efallai y byddai modd cael dodrefn am bris rhatach. *This was an amazing day and a fantastic success with £4,000 raised for the school! Plans are afoot to have the new wellbeing room ready in time for September and it will be available for all to use. The money raised will go towards kitting out the room and furnishing. Need to decide on best way to spend the funds – either by transferring funds to the school or that the school gives us a wishlist and purchases are made by Ffrindiau Pwll Coch. When the work is complete, it was decided it would be good to send an email out to everyone who contributed showing the end result. It was also suggested we could make the money go that bit further by contacting shops to ask about community funds etc e.g. Ikea. Or if there are any parents/contacts who work in shops that sell suitable furniture we may be able to get a discount on some things.*
- **Digwyddiad nesaf/Next event – Disco diwedd tymor i rieni ac athrawon/End of term disco for parents/teachers – Dyddiad posib/Possible date 15/7/22, lleoliad i’w gadarnhau/venue to be confirmed.** Trafodwyd nifer o leoliadau posib a chytunwyd y byddai gwahanol aelodau’r pwyllgor yn cysylltu â gwahanol lefydd i weld beth sydd ar gael. Cytunwyd y byddai rhywle yn weddol agos i ardal yr ysgol yn fwy cyfleus ac yn haws i bobl ddod. Mae ymdrechion codi arian wedi bod yn aruthrol eleni felly mae hwn yn fwy o gyfle i gymdeithasu a mwynhau, a dim ond angen codi digon o arian i dalu am gostau llogi’r lleoliad. *A number of different possible venues were discussed and it was agreed that members of the committee would get in touch with a few to see what was available. It was decided a venue close to the school catchment area would be more convenient and be easier for people to get to. Fundraising efforts have been incredible this year and this is more of a chance to socialise and enjoy, with minimal funds needed just to hire the venue.*
- **Picnic teuluol ar ôl ysgol/Family picnic after school** – Mae Mr Rees yn awyddus i ddechrau cyfres o ddigwyddiadau cymdeithasol ar ôl ysgol i ddod â chymuned yr ysgol at ei gilydd. Bydd picnic yn cael ei gynnal ar y cae ar y dydd lau cyn hanner tymor – 26/5. *Mr Rees is keen to start a series of social events after school to bring the school community together. The first school picnic will be held on the Thursday before half term – 26/5*
- **Diweddariad gan Ross/Update from Ross** – bydd gwaith yn dechrau ar yr ardal chwarae newydd tu allan ganol mis Mehefin. Mae Play Force, y cwmni sy’n mynd i gwblhau’r gwaith, yn dod i weld yr ardal yr wythnos nesaf i weld yn union beth sydd angen ei wneud. *Work will*

start on the new outdoor play area mid June. Play Force, the company that is going to complete the work, is coming to visit next week to see exactly what needs doing.

- **Ardal dysgu tu allan/Outside learning area** – Fel y trafodwyd mewn cyfarfod blaenorol, bydd Ffrindiau Pwll Coch yn cyfrannu £5,000 tuag at ddatblygu ardal dysgu tu allan ychwanegol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Roedd £4,500 wedi'i addo o'r blaen ac yn sgil llwyddiant ysgubol y cwis, mae modd cynyddu'r cyfraniad i £5,000. Mae grant wedi dod i law i dalu am gyfarpar i'r ysgol goedwig felly does dim angen cyfrannu at hynny mwyach. *As discussed in a previous meeting, Ffrindiau Pwll Coch will contribute £5,000 towards the development of another outdoor learning area for the Foundation Phase. £4,500 had been promised before and due to the success of the quiz held recently we are now able to increase that donation to £5,000. A grant has been made available for forest school equipment so we will no longer need to contribute to that.*
- **Ystafell gymunedol/community room** – mae nifer o grwpiau yn dechrau cynnal sesiynau yn ystafell gymunedol Pwll Coch dros yr wythnosau/misoedd nesaf e.e. Ti a Fi, Always Be Curious, Cymraeg i Blant. *A number of groups are going to start holding parent and child sessions in Ysgol Pwll Coch's community room over the coming weeks/months e.g. Ti a Fi, Always Be Curious, Cymraeg i Blant.*
- **Gwesty trychfilod/Bug hotel** – Mae Kier wedi cyfrannu gwesty trychfilod newydd i'r ysgol fel rhan o'u gwaith cymunedol yn sgil datblygu ysgol Fitzalan a bydd hwn yn cael ei osod yfory. *Kier have donated a bug hotel to the school as part of their community work because of the Fitzalan development and this is to be delivered tomorrow.*
- **Adroddiad y trysorydd/Treasurer report** – incwm ar gyfer Mawrth ac Ebrill £2,654.77 yn cynnwys arian o'r cwis, diwrnod di-wisg ysgol, peth o arian her y stadiwm a siec gan Tŷ Cerrig am y cynllun Coed Nadolig. Peth gwariant hefyd ar brynu bwyd a diod ar gyfer y noson gwis a llogi'r ystafell ac ychydig o gostau Charity Hive. Ar 1/5/22 mae cyfanswm o £9,507.04 yn y cyfrif banc. *Income for March and April is £2,654.77 including money from the quiz, non-uniform day, some of the stadium challenge money and a cheque from Tŷ Cerrig for their Christmas Tree scheme. There was some expenditure to buy food and drink for the quiz night and also to hire the venue. Also some nominal Charity Hive fees. On 1/5/22 the bank balance was £9,507.04.*
- **Codi arian yn y dyfodol/Future fundraising** – angen meddwl beth yw'r targedau a'r nodau ar gyfer codi arian yn 2022-23. Rydyn ni wedi llwyddo i godi llawer o arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn adnoddau hirdymor fel ystafell les etc a bydd ardal dysgu awyr agored ychwanegol yn cael ei datblygu. *Need to think about goals and targets for 2022-23. We have raised a lot of money to invest in long-term resources such as the wellbeing room and a new outdoor learning area will be developed.*
- **Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting - I'w gadarnhau/TBC**
Lleoliad i'w gadarnhau/Venue TBC